Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Sgwrs *ar gyfer* dyfodol iach

## Y 10 MLYNEDD NESAF





# Rydym angen eich help




Rydyn ni'n gweithio ar gynllun deng mlynedd i wella gofal iechyd yng Ngwent.



Rydyn ni angen i chi ein helpu i ddeall sut y gallwn wella ein gwasanaethau.

# Ein Poblogaeth

Rydym am i bawb yng Ngwent fyw bywydau hir ac iach. Ond tydi pawb ddim yn cael yr un cyfle. Mae gan rai ardaloedd hyd oes byrrach.




Os na fyddwn yn newid hynny, bydd gormod o bobl angen cymorth a bydd y GIG yn cael trafferth ymdopi.



Gellir osgoi llawer o afiechydon fel canser, clefyd yr afu a chlefyd y galon.

Gall newidiadau bach yn ein ffordd o fyw wneud gwahaniaeth mawr.



Mae cael swyddi da, bwyd iach, parciau a mannau awyr agored, cartrefi fforddiadwy, ac amser gydag anwyliaid, i gyd yn chwarae rhan fawr wrth ein cadw ni'n hapus ac yn iach am gyfnod hirach.

# Ein Gweithlu

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio i'n Bwrdd Iechyd yn byw yn yr ardal hon.



Mae mwy o bobl hŷn yn byw yn ein hardal nawr a llai o bobl ifanc. Bydd hyn yn parhau i ddigwydd, gyda hyd yn oed llai o bobl ifanc yn dechrau gweithio.

Mae gennym ni fwy o staff hŷn na'r rhai iau.




Does yna ddim digon o bobl ar gyfer pob swydd gofal iechyd, ac mae mwy o swyddi'n wag.

Yn y dyfodol, bydd dim digon o bobl i wneud yr holl waith rydyn ni'n ei wneud nawr.



Mae hanner y meddygon newydd yn dod o wledydd eraill. Mae angen mwy o bobl leol arnom i gadw pethau'n sefydlog yn y dyfodol.

Mae gwaith gofal yn newid oherwydd technoleg newydd, gwell meddygaeth, a gwahanol ffyrdd o weithio.

Fel cyflogwyr, mae'n rhaid i ni newid hefyd.

# Ein Perfformiad

Rydyn ni'n rhoi gofal gwych i lawer o gleifion, ond mae angen i ni wella.



Ar ddechrau 2024, arhosodd mwy na 35,000 o bobl dros 36 wythnos am apwyntiadau a thriniaethau.



Rydym wedi gwella rhywfaint o ofal brys ond nid yw amseroedd aros ambiwlansys yn ddigon cyflym.




Mae pobl yn aros yn ein hysbytai yn rhy hir. Mae llawer yn barod i adael ond ni allant oherwydd bod angen help arnynt gartref. Mae hyn yn ychwanegu amser at eu harhosiad yn yr ysbyty, nad yw'n dda i'w hiechyd.



Mae llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd mynd i weld meddyg teulu a chael cefnogaeth gymunedol.

Rydyn ni'n gweithio i ddatrys hyn, ond mae llawer i'w wneud o hyd.

# Technoleg a Gwyddoniaeth



Mae technoleg newydd yn newid ein ffordd o fyw. Mae llawer o bobl yn defnyddio ffonau clyfar a thabledi bob dydd. Mae technoleg eisoes yn rhan fawr o'n bywydau.



Mae rhaglenni cyfrifiadurol yn darllen pelydrau-x, gall monitorau yng nghartrefi pobl helpu rhoddwyr gofal, ac mae triniaethau newydd i frwydro yn erbyn canser.



Mae gofal iechyd yn gwaethygu newid hinsawdd trwy ddefnyddio llawer o ynni a gwneud llawer o wastraff.



I helpu, dylai gofal iechyd ddefnyddio ynni glanach, gwneud llai o lygredd, a lleihau gwastraff.

# Ein Hadnoddau



Mae gofal iechyd yn costio llawer o arian. Cyllideb y Bwrdd Iechyd yw £1.7 biliwn, sef 7.5% o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wario.

Mae angen inni newid sut rydyn ni'n gwario'r arian hwn gan fod ein poblogaeth yn newid.




Dylem wario mwy ar atal salwch ac ar wasanaethau fel Meddygon Teulu, Fferyllfeydd, Deintyddion ac Optegwyr.

Hefyd, gall rhoi gwasanaethau arbenigol at ei gilydd mewn un lle arbed arian a gwella gwasanaethau.



Nid mater o fynd at y meddyg neu'r ysbyty yn unig yw cadw'n iach, dim ond rhan ohono yw hynny.



Os byddwn yn gwario mwy ar bethau fel glanhau'r amgylchedd, gwella ysgolion a helpu cymunedau, gall bawb fod yn iachach.

# Beth ydyn ni'n ei wneud yn barod?






Rydym wedi gwneud llawer o waith i wella gwasanaethau gofal iechyd.

Fe wnaethom agor Ysbyty Athrofaol y Faenor yn gynnar, a'n helpu felly i frwydro yn erbyn heintiau yn ystod Covid-19.

Mae Canolfan Iechyd newydd yn Nhredegar a Chanolfan y Fron yn Ystrad Mynach ar agor.

Mae gwasanaethau gofal brys newydd fel yr uned Gofal Brys ar yr Un Diwrnod yn helpu cleifion i gael apwyntiadau yn gynt.

Rydyn ni'n gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Yn y pandemig, fe wnaethom sefydlu gwasanaethau brechu, profi ac olrhain yn gyflym i bawb.

Rydyn ni'n gweithio i fod yn fwy caredig i'r amgylchedd.

# Cwestiwn



Gwyddom nad oes gennym yr holl atebion i wella ein system. Rydym angen eich help i ddarganfod pa feysydd i ganolbwyntio arnynt.

Os gwelwch yn dda a allech chi ateb y cwestiwn hwn:

**‘Beth sy’n bwysig i chi deimlo’n iach?’**



Gallwch anfon eich ateb drwy sganio’r cod QR hwn a llenwi'r ffurflen.

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Gwnaethpwyd y llyfryn hwn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
Ewch i'n gwefan os hoffech gael y llyfryn hwn mewn fformat neu iaith wahanol
**https://abuhb.nhs.wales/**